

Adroddiad i'r	Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio
Dyddiad y Cyfarfod	18 Tachwedd 2020
Aelod / Swyddog Arweiniol	Bobby Feeley / Nicola Stubbins / Phil Gilroy
Awdur yr Adroddiad	Phil Gilroy
Teitl	Adroddiad Archwilio Cymru - Pwysau Costau Cyllidebol Gwasanaethau Cymdeithasol

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi Adroddiad Archwilio Cymru o Bwysau Costau Cyllidebol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn Sir Ddinbych ac yn darparu ymatebion Swyddogion i'r Cynigion ar gyfer Gwella.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Er mwyn sicrhau bod Aelodau Etholedig yn cael eu hysbysu am arsylwadau a chamau gweithredu ac yn gallu craffu arnynt yn dilyn archwiliad allanol o wasanaeth Cyngor Sir Ddinbych.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod yr Aelodau'n ystyried yr adroddiad, yr 'Cynigion ar gyfer Gwella' ac ymatebion Swyddogion ', gan ddarparu adborth fel y bo'n briodol.

4. Manylion yr Adroddiad

4.1. Ym mis Chwefror 2020, cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru (Archwilio Cymru bellach) adolygiad o drefniadau comisiynu a gweinyddu cartrefi gofal i bobl hŷn. Mae'r adroddiad llawn wedi'i gynnwys yn Atodiad 1.

4.2. Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ym mis Awst 2020 a daethpwyd i'r casgliad nad yw'r Cyngor wedi gallu sicrhau'r buddion mwyaf posibl o weithio mewn partneriaeth wrth gomisiynu a gweinyddu lleoliadau gofal cartrefi preswyl a nyrsio.

4.3. Nododd yr adroddiad y daethpwyd i'r casgliad hwn oherwydd:

- nid yw'r trefniant cyllideb gyfun ar gyfer llety cartrefi gofal yn darparu gwerth am arian;
- mae gan y Cyngor drefniadau sefydledig ar gyfer contractio ar gyfer gofal preswyl a chartref nyrsio; mae newidiadau cenedlaethol diweddar i'r broses asesu ariannol wedi arwain at gost ariannol ychwanegol; a
- mae'r Cyngor yn gweithredu i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth mewn lleoliadau priodol, ond gall mynediad at gyllid gofal iechyd parhaus arwain at oedi ac anghydfodau.

4.4. Mae'r adroddiad yn mynd ymlaen i wneud cynigion ar gyfer Gwella sydd, er hwylustod darllen, yn cael eu cynnwys yma gyda sylwadau cychwynnol a phellach Swyddogion.

Cynnig	Sylwadau Cychwynnol	Sylwadau Pellach
<p>C1 Dylai'r Cyngor, mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd, sefydlu dull strategol o ariannu a chomisiynu gofal cartrefi preswyl a nyrsio:</p> <ul style="list-style-type: none"> • lleihau gwahaniaethau sefydliadol; • yn dangos gwerth am arian; a • yn gosod anghenion defnyddwyr gwasanaeth ar y blaen. 	<p>Mae gwaith yn mynd rhagddo yn rhanbarthol trwy'r Bwrdd Comisiynu a'r Grŵp Llywio Cartrefi Gofal. Bydd datblygiadau'r Rhaglen Drawsnewid hefyd yn cynnwys newidiadau i'r modd y mae BCU a CSDd yn gweithio gyda'i gilydd i gomisiynu a monitro lleoliadau cartrefi gofal.</p>	<p>Cryfhawyd y Grŵp Llywio Cartrefi Gofal yn ddiweddar yn dilyn cyfres o gyfarfodydd lefel uchel rhwng BCU a chynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol yn ystod yr achos cychwynnol o COVID-19. Bellach mae'r Grŵp Gweithredu Cartrefi Gofal yn cael ei gadeirio gan Gyfarwyddwr yn y Bwrdd Iechyd ac mae'n adrodd yn fewnol o fewn BCU ac yn allanol i'r Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol dan</p>

		gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr ALI.
C2 Dylai'r Cyngor ymgysylltu â phartneriaid i adolygu'r trefniant cyllideb gyfun gyfredol ar gyfer gofal preswyl i bobl hŷn, er mwyn sicrhau bod trosglwyddiadau arian rhwng cyrff cyhoeddus â budd diriaethol fel comisiynu gofal preswyl a chartref nyrsio yn fwy integredig.	Mae'r trefniadau cyllideb gyfun gyfredol 'wrthi'n cael eu datblygu' ac o'r herwydd maent yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gyda'r holl bartneriaid. Fe welwn fod yr enghreifftiau o sicrhau buddion fel comisiynu gofal yn integredig wedi'u cynnwys yn yr adolygiad hwn.	Nid yw Adroddiad Archwilio Cymru wedi'i rannu eto gyda'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol, sef y corff sydd â'r dasg o oruchwyllo'r trefniadau Cyllideb Gyfun a wnaed yn ofyniad cyfreithiol yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles. Mae trefniadau cyfredol wedi cael eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru fel rhai cyfreithlon.
C3 Dylai'r Cyngor weithio gyda'r Bwrdd Iechyd i wella trefniadau cyfathrebu sy'n sicrhau bod unrhyw newidiadau mewn anghenion iechyd (a chymhwyster dilynol ar gyfer cyllid gofal iechyd parhaus) yn cael eu cyfleu'n gyflym a bod trefniadau cyllido yn cael eu hadolygu.	Bydd datblygiadau'r Rhaglen Drawsnewid hefyd yn cynnwys newidiadau i sut mae BCU a CSDd yn gweithio gyda'i gilydd wrth gomisiynu a monitro lleoliadau cartrefi gofal, gan gynnwys datblygu trefniadau adolygu ar y cyd trwy Dimau Adnoddau Cymunedol.	Mae Pandemig Coronavirus wedi arafu datblygiad Timau Adnoddau Cymunedol ond mae'n dal i fod o fewn bwriad y datblygiadau parhaus i gynnwys trefniadau adolygu ar y cyd. Dechreuodd gwaith ar y cyd rhanbarthol ar ddatblygu Gweithdrefn Weithredu Safon Gofal Iechyd Parhaus ond mae BCU wedi ymddieithrio ag ALI ac mae'r gwaith wedi stopio.
C4 Ystyried newidiadau a roddwyd ar waith yn ystod y	Bydd adolygiad o'r trefniadau a ddatblygwyd	Mae'r Tîm Rheoli Ardal ar y Cyd wedi ailddechrau'n

<p>pandemig COVID-19 i nodi cyfleoedd ar gyfer comisiynu gofal preswyl a chartref nyrsio yn well ac yn fwy integredig</p>	<p>mewn ymateb i COVID-19 yn cael ei gynnal o fewn y Tîm Rheoli Ardal ar y Cyd</p>	<p>ddiweddar yn dilyn y gostyngiad cychwynnol mewn achosion Covid-19. Yn anffodus ni wnaed unrhyw welliannau mewn comisiynu yn ystod cam cychwynnol y pandemig heblaw am ostyngiad yn ansawdd rhyddhau pobl hŷn eiddil i gartrefi gofal o'r ysbyty, yn aml heb unrhyw gyfeiriad at yr ALL.</p>
---	--	--

4.5 Ers hynny mae Archwilio Cymru wedi cynnal adolygiadau tebyg o gomisiynu yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a hefyd o fewn BCU. Nid yw'r adroddiadau hynny ar gael eto i Sir Ddinbych.

4.6 Yn 2020-21, mae Archwiliad Cymru yn bwriadu cwblhau adolygiad rhanbarthol o gomisiynu gofal preswyl a nyrsio, gan ganolbwyntio ar y galw a ragwelir a chynllunio gallu, ledled Gogledd Cymru.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Mae comisiynu cartrefi gofal i bobl hŷn yn cyfrannu at y blaenoriaethau canlynol:

- **Tai:** Cefnogir pawb i fyw mewn cartrefi sy'n diwallu eu hanghenion
- **Cymunedau Cydnerth:** Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i adeiladu annibyniaeth a gwytnwch

6. Beth fydd cost hyn a beth fydd ei effaith ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes unrhyw gostau yn codi'n uniongyrchol o'r adroddiad hwn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen Asesiad Effaith Llesiant ar gyfer yr adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Craffu ac eraill?

8.1 Dim

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau

10.1. Nid oes unrhyw risgiau ychwanegol yn codi o'r adroddiad hwn.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. Nid oes angen penderfyniad.